

## Uned 19

### Triniaethau Systemig

#### Taflen Wybodaeth

#### Cyflwyniad

Bydd y sesiwn hon yn delio â defnyddio ectoparasit-leiddiaid systemig ar anifeiliaid fferm.

#### Ectoparasit-leiddiaid

Mae ectoparasit-leiddiad yn lladd ectoparasitiaid (dyma organebau byw sy'n byw ar y tu allan i anifail).

Gellir dosbarthu'r rhain yn ôl eu strwythur cemegol, a sut maen nhw'n gweithio (dull gweithredu).

#### Sut mae'r Ectoparasit-leiddiaid yn gweithio?

Mae Ectoparasit-leiddiaid yn gweithio naill ai:

- i) **Yn systematig** - cael eu cludo yn y llif gwaed neu
- ii) **Argroenol** - cyswllt uniongyrchol â'r organebau targed.

#### i) Triniaethau Systemig

Gellir rhoi'r rhain trwy:

- Bigiad - mynd i mewn i'r llif gwaed
- Rhoi ar y croen e.e. tywallt, sbotio, chwistrellu neu ddipio. Mae'r cyfansoddyn cemegol yn cael ei amsugno drwy'r croen ac i mewn i'r llif gwaed.

#### Dulliau Rhoi

Rhannu'n ddau gategori:

- i) Meddyginiaethau Pigiadwy
- ii) Meddyginiaethau Argroenol

#### 1. Meddyginiaethau Pigiadwy

Mae'r cemegau hyn yn cael eu pigiadu'n isgroenol i mewn i'r anifeiliaid. Maen nhw'n teithio i'r llif gwaed

- Y cemegau arferol: ifermectinau, doramectinau, mocsidectinau
- Lleoliad y pigiadu y tu ôl i'r ysgwydd fel arfer
- Cyfradd ddosio'n dibynnu ar bwysau'r corff.

#### 2. Rhoi'r Meddyginiaethau Systemig Argroenol

Mae tri phrif ddull o roi'r ectoparasit-leiddiad:

1. Tywallt/sbotio

2. Chwistrellu
3. Dipio

Mae dau ddull arall:

- Rhoi Cawod
- Rhoi Jet

## 1. Tywallt/Sbotio

- Ei roi dros fwy o arwynebedd fel arfer
- Ei dywallt mewn llinell i lawr y cefn
- Sbotio mewn un lleoliad, y tu ôl i'r gwddf fel arfer
- Amrywiaeth o gemegau'n cael eu defnyddio, yn dibynnu ar y cemegau e.e. mae *Coopers Spot On* yn cynnwys Deltamethrin; mae *Merials' Ivomec Pour On* yn cynnwys Ifermectin
- Mae'r gyfradd ddosio'n dibynnu ar bwysau'r anifail
- Mae'n cael ei roi trwy ddefnyddio teclyn arbennig '*Squeeze 'n' Pour*' neu ddryll/gwn taenu
- Mewn defaid sydd heb eu cneifio, rhaid gwahanu'r gwlan i ddinoethi'r croen.

## 2. Chwistrellu

- Cael ei ddefnyddio ar famogion wedi neu heb eu cneifio
- Ei chwistrellu dros fwy o arwyneb e.e. llinell ôl y crwmp a'r pen-ôl
- Gwn taenu arbennig
- Mae'r gyfradd ddosio'n dibynnu ar bwysau'r anifail
- Amrywiaeth o gemegau'n cael eu defnyddio, yn dibynnu ar y cemegau e.e. *Vetrazine, Crovect, Clik*
- Mae'r arwyneb sydd wedi cael ei chwistrellu'n atal ymosodiad gan bryfed chwythu
- Mae lliw yn y toddiant yn dangos y manau sydd wedi cael chwistrelliad.

## 3. Dipio Plymiad

Dipio plymiad yw'r dull atal hynaf a mwyaf dibynadwy. Mae'r defaid yn cael eu trochi'n gyfan gwbl mewn cemegyn. Mae'r dipiau'n cynnwys gwahanol gemegau.

Y ddau brif grŵp yw:

- y grŵp organoffosforaidd - mwy niweidiol i fodau dynol
- y cemegau pyrethroid synthetig - mwy niweidiol i'r amgylchedd

Mae'r ddau grŵp naill ai'n lladd, rhwystro presenoldeb neu'n atal yr ectoparasitiaid rhag datblygu.

## **Dulliau Eraill o reoli Ectoparasitiaid yn Systematig**

- a) Rhoi Cawod i'r Defaid
- b) Rhoi Jetiau

### **Rhoi Cawodydd a Jetiau I'r Defaid**

- Mae'r defaid yn cael cawod â chemegyn dip
- Pwmp gwasgedd uchel a theclyn llaw arbennig yn chwistrellu'r ddafad â'r dip
- Gellir ei ddefnyddio'n effeithiol i reoli ymosodiad pryfed
- Nid yw'n rheoli'r clafr yn effeithiol
- Rhaid chwistrellu/jetio'r defaid am ddigon o amser er mwyn i'r cemegyn gyrraedd y croen.